INSMAR008

# Gwneud yn siŵr bod gweithgareddau marchnata yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol, a gwerthoedd sefydliadol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal gweithgareddau marchnata mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol, a gwerthoedd sefydliadol. Mae'n cynnwys datblygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni, sicrhau bod cydweithwyr a rhanddeiliaid priodol yn deall y goblygiadau i'r sefydliad os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau, a phwysigrwydd cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol ac arferion gorau. Mae'r safon ar gyfer gweithwyr marchnata proffesiynol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod gweithgareddau marchnata yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol, a gwerthoedd sefydliadol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu gwerthoedd eich sefydliad gan gynnwys unrhyw gymwyseddau a chanllawiau cysylltiedig
2. datblygu polisïau a gweithdrefnau marchnata i wneud yn siŵr bod y sefydliad yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol presennol
3. cadarnhau bod gweithgareddau marchnata yn cyd-fynd â gwerthoedd eich sefydliad
4. gweithredu polisïau a gweithdrefnau marchnata yn eich sefydliad
5. cyfathrebu'r polisïau a'r gweithdrefnau marchnata i gydweithwyr a rhanddeiliaid
6. gwneud yn siŵr bod cydweithwyr a chwsmeriaid yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau
7. nodi'r goblygiadau i'r sefydliad os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau marchnata
8. monitro'r defnydd o bolisïau a gweithdrefnau marchnata i wneud yn siŵr y cedwir at y rhain
9. rhoi cymorth i gydweithwyr sy'n defnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau
10. annog adborth gan gydweithwyr a rhanddeiliaid a chymryd camau priodol os na chedwir at bolisïau a gweithdrefnau marchnata
11. cynnal eich gwybodaeth am arferion gorau o ran gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol mewn cysylltiad â marchnata
12. adolygu polisïau a gweithdrefnau marchnata yn unol â gofynion sefydliadol
13. diweddaru polisïau a gweithdrefnau marchnata er mwyn ystyried datblygiadau newydd ac arferion gorau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gwerthoedd eich sefydliad ac unrhyw gymwyseddau cysylltiedig, a sut i alinio'r rhain â'ch gweithgareddau marchnata
2. pwysigrwydd alinio gweithgareddau marchnata â gwerthoedd eich sefydliad
3. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau marchnata
4. pwysigrwydd alinio polisïau a gweithdrefnau marchnata â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol
5. sut i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau marchnata sy'n ystyried gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol cyfredol
6. y technegau cyfathrebu y gellir eu defnyddio i rannu polisïau a gweithdrefnau â chydweithwyr a rhanddeiliaid
7. y goblygiadau posibl i'ch sefydliad os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau marchnata
8. sut i gyfathrebu effaith peidio â dilyn polisïau a gweithdrefnau i gydweithwyr a rhanddeiliaid a chytuno ar gamau gweithredu
9. dulliau monitro'r defnydd o bolisïau a gweithdrefnau marchnata
10. y camau y gellir eu cymryd os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau marchnata
11. ffynonellau gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol ac arferion gorau o ran gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol ym maes marchnata
12. pwysigrwydd diweddaru polisïau yn unol â datblygiadau newydd ac arferion gorau

INSMAR008

Gwneud yn siŵr bod gweithgareddau marchnata yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol, a gwerthoedd sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 05 Chwef 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | CFAMAR10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Marchnata a Gwerthiant, Swyddog Marchnata, Rheolwr Marchnata a Gwerthu, Cydymaith Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata |
| **Cyfres/Set** | Marchnata |
| **Geiriau Allweddol** | Marchnata, gwerthu, rheoli marchnata, ymchwil i'r farchnad, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus |